

**DEDDF ARCHWILIO CYHOEDDUS (CYMRU) 2004,
RHEOLIADAU CYFRIFON AC ARCHWILIO (CYMRU) 2014 A RHEOLIADAU
(DIWYGIO) 2018**

**ARDYSTIO A CHYMERADWYO
CYFRIFON PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD
AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2020**

Mae Rheoliad 15 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 a Rheoliadau (Diwygio) 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddog Ariannol Cyfrifol Cyngor Gwynedd lofnodi a dyddio'r cyfrif incwm a gwariant a'r datganiad o falansau (Ffurflen Flynyddol), ac ardystio ei fod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar ddiwedd y flwyddyn y mae'n ymwneud â hi ac o incwm a gwariant y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn honno. Roedd y Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i hyn gael ei gwblhau erbyn 15 Mehefin 2020.

Mae Rheoliad 15 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 a Rheoliadau (Diwygio) 2018 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol, yn dilyn yr ardystiad gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol y cyfeiriwyd ato uchod, bod Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn cymeradwyo ac yn cyhoeddi'r Ffurflen Flynyddol. Roedd y Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i hyn gael ei gwblhau erbyn 15 Mehefin 2020.

Er i'r Swyddog Ariannol Cyfrifol lofnodi ac ardystio'r Ffurflen Flynyddol ar gyfer y Pwyllgor ar 26 Mai 2020 ac iddo gael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Gwynedd ar 27 Mai 2020, oherwydd argyfwng COVID-19 nid yw'r corff wedi cyfarfod i gymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol cyn 15 Mehefin 2020.

Mi fydd y Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ym mis Medi.

Dyddiedig: Mehefin 2020